Cyngor Tref
**Rhuddlan**
Town Council

**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023**

**yn Hwb Rhuddlan**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Kermode (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Val Simmons
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Roedd nifer o gynrychiolwyr grwpiau cymunedol gwirfoddol Rhuddlan yn bresennol hefyd, sef: Clwb Pêl-droed y Dreigiau / Dragons F.C., Cymdeithas Rhandiroedd Rhuddlan, Clwb Bowlio Rhuddlan, Canolfan Gymunedol Rhuddlan, Clwb Cyfeillgarwch Rhuddlan ac Eglwys y Santes Fair.

Hefyd yn bresennol roedd Rheolwr siop Spar Rhuddlan a Mr. Selwyn Thomas.

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, gan eu gwahodd i gyflwyno eu hunain. Dywedodd mai cyfarfod agored oedd hwn i roi cyfle i grwpiau a mudiadau lleol drafod unrhyw ddigwyddiadau maent yn ystyried eu trefnu yn y dyfodol, gyda chymorth ariannol gan Gyngor y Dref lle bo'r angen i wneud y digwyddiadau yn llwyddiant. Nid oes gan y Cyngor yr adnoddau na'r sgiliau i drefnu pob math o ddigwyddiadau ei hun ond mae'n awyddus i gefnogi gwaith grwpiau cymunedol gwirfoddol er budd y dref.

**1. Ymddiheuriadau**
Er nad oeddynt yn bresennol, dywedodd Brian Taylor, a Men's Shed Rhuddlan, eu bod yn awyddus i helpu gyda unrhyw ddigwyddiadau.

**2. Datgan Buddiant -** Dim

**3. Digwyddiadau Posibl**

**Coroni'r Brenin** – Rhestrodd y Cadeirydd y digwyddiadau cenedlaethol a oedd wedi'u cyhoeddi gan Balas Buckingham. Dydd Sadwrn, 6 Mai, fydd Diwrnod y Coroni pan fydd y Brenin Charles III yn cael ei goroni'n swyddogol ynghyd â Chydweddog y Brenin; cynhelir y

gwasanaeth yn Abaty Westminster, a bydd gorymdeithiau ffurfiol yn Llundain. Bydd digwyddiad o'r enw'r Cinio Mawr yn cael ei gynnal ddydd Sul, 7 Mai, er mwyn annog cymunedau i rannu bwyd a chael hwyl, ynghyd â chyngerdd a sioe oleuadau yng Nghastell Windsor gyda'r nos. Bydd dydd Llun, 8 Mai, yn cael ei alw'n Ddiwrnod Cynnig Help Llaw Mawr lle gall grwpiau gwirfoddol ddangos eu gwaith a gwahodd pobl i roi cynnig ar wirfoddoli.

Nodwyd bod camgymeriad yn yr amser a gyhoeddwyd yng Nghylchgrawn y Plwyf a'r Gymuned. Roedd y cyfarfod wedi dechrau am 7pm, nid 7-30pm fel yr hysbysebwyd yn y cylchgrawn, fodd bynnag, roedd y gwahanol grwpiau yn gwybod yr amser cywir.

Ar y pwynt hwn, gwahoddwyd cynrychiolwyr y gwahanol grwpiau i roi manylion am y digwyddiadau roeddynt yn ystyried eu cynnal, yn benodol ar benwythnos y coroni ac i roi sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer addurno canol y dref ar gyfer y digwyddiad.

**3.1. Canol y Dref** – y teimlad oedd y dylid gosod baneri ac addurniadau ar hyd Ffordd Fawr Rhuddlan ac y dylai strydoedd unigol ystyried cynnal eu partïon stryd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Atgoffwyd y grwpiau bod angen sicrhau bod digwyddiadau yn gynhwysol i bobl anabl a phobl ag anghenion arbennig lle bo'n bosibl.

**3.2 Y Clwb Cyfeillgarwch a'r Ganolfan Gymunedol** – byddant yn trefnu Cinio Mawr ar y prynhawn Sul gyda chystadleuaeth ar gyfer y wisg orau a'r goron orau, ac o bosibl digwyddiad bedwen Fai. Byddant yn darparu bwffe a bydd 50 o docynnau yn cael eu gwerthu.

**3.3 Cymdeithas Rhandiroedd** – dim byd wedi'i gadarnhau eto ond maent yn awyddus i gymryd rhan.

**3.4 Clwb Bowlio** – bydd y clwb yn cynnal gemau hwyliog i blant ar fore Llun, 8 Mai a digwyddiad hwyliog i oedolion yn y prynhawn. Bydd barbeciw ar gyfer tua 150 o bobl yn cael ei gynnal gyda'r nos, a bydd angen cymorth ariannol ar gyfer hwn. Bydd raffl hefyd a chyfle i ennill crys pêl-droed Cymru wedi'i lofnodi, ynghyd â rhoddion o wobrau gan fusnesau lleol. Mae'r clwb eisoes wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda Chlwb Pêl-droed y Dreigiau / Dragons F.C. i weld sut gallant gydweithio orau.

**3.5 Clwb Pêl-droed y Dreigiau / Dragons F.C.** – y syniad yw trefnu cae pêl-droed y gellir ei chwythu i fyny ag aer, a bwrdd dartiau tebyg, fel bod modd cynnal rhai digwyddiadau hwyliog ynghyd â raffl gyda chrysau 'replica' fel gwobrau. Maent yn ystyried llogi castell bownsio hefyd ynghyd â chynnig chwaraeon cynhwysol eraill, e.e. rownderi a 'dodge ball'.

**3.6 Eglwys y Santes Fair** – Cynhelir gwasanaeth dathlu ar y cyd ag eglwys Bodelwyddan am 10.30am ddydd Sul, 7 Mai.

**3.7 Castell Rhuddlan** – bydd cyngor y dref yn cynnal trafodaethau gyda CADW i sicrhau bod y castell yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd dros y penwythnos, yn benodol chwifio baneri a goleuo muriau'r castell.

**3.8 Syniadau eraill** – trafodwyd nifer o syniadau eraill a fydd o bosibl yn dwyn ffrwyth. Y rhain oedd tîm pêl-fasged anabl Rhyl Raptors, Clwb Rygbi'r Rhyl, digwyddiad Brenhines y Carnifal, arddangosfa o flodau wedi'u gwau, prosiect calendr o olygfeydd Rhuddlan, cystadleuaeth y bwmpen fwyaf, a defnyddio pwyntiau trydan newydd cymdeithas y rhandiroedd ar gyfer grwpiau a all fod eu hangen.

Gofynnwyd a oedd cymorth ar gael i fusnesau lleol. Ni fydd cymorth ariannol ar gael i fusnesau gan mai'r nod yw cynorthwyo grwpiau a mudiadau gwirfoddol i drefnu digwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

**4. Camau Nesaf**

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfle i grwpiau a mudiadau gyflwyno rhagor o syniadau ar gyfer digwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn. Gallant wneud hyn drwy lenwi ffurflen gais fer a'i hanfon at y Clerc; cafodd copïau o'r ffurflen eu rhannu yn ystod y cyfarfod.

Dylid cyflwyno ceisiadau am gymorth ar gyfer digwyddiadau yn gysylltiedig â Choroni'r Brenin erbyn canol mis Chwefror; byddant yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Digwyddiadau.